



Uchelgais  
Gogledd Cymru  
Ambition  
North Wales

# Pecyn Swydd Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo

Nodyn: Rydym yn croesawu ceisiadau gan graddedigion ar gyfer y rôl hon nad oes ganddynt y profiad angenrheidiol. Gweler Pecyn Swyddi Graddedigion am fanylion.



[uchelgaisgogledd.cymru](http://uchelgaisgogledd.cymru) | [ambitionnorth.wales](http://ambitionnorth.wales)

# Cynnwys

Cynnwys y Pecyn Swydd	Tudalen
Ychydig o eiriau gan y Cadeirydd a Cyfarwyddwr Portffolio	3
Pwrpas y Swydd	4
Ai chi yw'r person rydym ni'n chwilio amdano?	5
Am y Rôl	6
Swydd Ddisgrifiad	7
Manylion Person	9
Proses Apwyntio	10
Amserlen Recriwtio	11
Am y Cynllun Twf	12



Am fwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:  
[David Mathews](#) - Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo

# Amser cyffrous i ymuno â'r tîm

Annwyl Ymgeisydd

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru. Rydym yn gyfrifol am gyflawni portffolio o brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Cymeradwywyd y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a byddwn yn gweld llawer mwy o brosiectau yn symud ymlaen eleni. Ni fu erioed amsermwy cyffrous i ymuno â'r tîm.

Mae' Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd yn y dyfodol. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu i gyflawni'r Cynllun Twf, a chefnogi'r uchelgais rhanbarthol ar gyfer economi cryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwyllewyrchus i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma. Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn creu swyddi newydd â chyflogau uchel, yn denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac rydym wedi datblygu set o werthoedd sy'n tanategu sut rydymyn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith hon.

Yn gywir



**Cyngorydd Dyfrig Siencyn**  
Uchelgais Gogledd Cymru



**Alwen Williams**  
Cyfarwyddwr Portffolio





## Pwrpas y Swydd

- Arwain prosiectau a neilltuwyd gan gynnwys dylunio, negodi a chynllunio o fewn y Rhaglen Tir ac Eiddo.
- Rheoli a chyflawni prosiectau a neilltuwyd o fewn y rhaglen.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio ar y cyd â phartneriaid i gyflawni amcanion y rhaglen.
- Datblygu achosion busnes gan ddefnyddio'r fethodoleg Achos Busnes Gwell
- Cyflawni amcanion prosiectau unigol a chyfrannu at ganlyniadau a thargedau cronus y Rhaglen ar amser ac o fewn y gyllideb.
- Cydlynu prosiectau a'u rhyng-ddibyniaethau ar draws y rhaglen ac o fewn Portffolio ehangach y Cynllun Twf.
- Cefnogi prosiectau i gyflawni ein targedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth

**Cyflog:** £39,571 – £41,591 (PS4)

**Oriau:** Hyd at 37 awr yr wythnos\*

**Cytundeb:** tan Mawrth 2024\*\* (byddwn yn ystyried secondiad)

**Lleoliad:** Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio gartref)\*\*\*

**Ariennir y swydd hon yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.**

\* Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir.

\*\* Swydd cyfnod penodol hyd at 31 Mawrth 2024 yn y man cyntaf, gyda posibilrwydd o estyniad.

\*\*\* Ar hyn o bryd mae'r tîm cyfan yn gweithio'n rhithwir a byddant yn mabwysiadu model hybrid yn y dyfodol gyda chymysgedd o weithio yn y swyddfa a gweithio gartref.

# Ai chi yw'r person rydym ni'n chwilio amdano?

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm? Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni'n bwriadu ymuno â'n tîm.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngpersonol rhagorol, sy'n frwd dros yrru y Cynllun Twf yn ei flaen. Mae gan bob rôl yn y tîm ei faes ei hun, ond bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am rhywun sydd yn gallu gweithio mewn ac yn gallu cefnogi eu cydweithwyr.

Mae gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid lluosog i yrru'r prosiectau yn eu blaenau, yn ofyniad allweddol ar gyfer ein holl rolau. Mae gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd yr hyn a wnawn fel tîm.

Bydd y tîm yn darparu amgylchedd cefnogol a chyfleoedd datblygu i chi, rydym yn annog unigolion i ddilyn datblygiad proffesiynol ac yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o'n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol.

Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych. Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?



**Hedd Vaughan-Evans**  
Pennaeth Gweithrediadau

# Y Swydd

Mae'r Rhaglen Tir ac Eiddo wedi'i thargeddu at ddarparu safleoedd datblygu segur cyflogaeth a preswyl ledled Gogledd Cymru fel y gall y sector breifat fuddsoddi a chreu safleoedd cyflogaeth newydd a darparu mwy o dai newydd. Mae'r sefyllfa'n rhoi cyfle i chwarae rhan annatod yn y gwaith o gyflawni prosiectau trawsnewidiol yng Ngogledd Cymru a fydd yn effeithio ar yr economi i ysgogi twf, buddsoddiad a chreu swyddi.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cynnwys chwe phrosiect annibynnol, gyda phump ohonynt yn darparu gwasanaethau sylfaenol i safleoedd datblygu neu'n llenwi bwlch cyllid cymeradwy i hyfywedd datblygu. Mae'r chweched prosiect yn gyfres sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau ym mhorthladd Caergybi ar gyfer darparu gwaith diogelu a gwella capasiti. Gallwch ddarganfod mwy [yma](#).

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am weithredu rhai o'r prosiectau hyn, yn cynnwys datblygu achosion busnes llawn yn unol â'r fethodoleg Model Pum Achos y Trysorlys. Bydd y cam datblygu hwn yn cynnwys gweithio gyda byrddau prosiect, adnabod risgiau a materion a dyfeisio mesurau lliniaru, cynnal gweithdai rhanddeiliaid i osod sgôp prosiectau a gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau economaidd a threfniadau masnachol. Bydd y Rheolwr/wyr Prosiect yn arwain ar weithgaredd caffael ac ymgysylltu â'r farchnad gan arwain ar gyflawni buddsoddiad cyfalaf a rheoli contract. Bydd y Rheolwr Prosiect yn ymgymryd â thasgau adrodd, monitro a gwerthuso, gyda chefnogaeth y Rheolwr Rhaglen a thîm y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Bydd angen i ddeiliad y swydd fod yn ddatryswr problemau, sy'n gallu meddwl yn arloesol, cymryd y cam cyntaf a chyda rhinweddau arwain. Bydd sgiliau rhyngpersonol a meithrin perthynas dda yn hanfodol a byddai'r gallu i ryngweithio a thrafod gyda thrawstoriad eang o fusnesau, adrannau'r llywodraeth, datblygwyr, ymgynghorwyr, awdurdodau lleol (aelodau etholedig a swyddogion), perchnogion tir ac unigolion ar wahanol lefelau yn ddymunol.

Bydd ein hymgeisydd delfrydol yn rheolwr prosiect profiadol sydd ag angerdd dros lunio lleoedd a diddordeb mewn cynllunio a datblygu, ond byddem hefyd yn ystyried ceisiadau gan raddedigion diweddar mewn maes cysylltiedig\*.

*\*Byddai graddedigion yn cael eu penodi ar raddfa ein Rheolwr Prosiect Gradeddigion. Gweler y fanyleb bersonol am fwy o fanylion.*

# Swydd Ddisgrifiad

## Pwrpas y Swydd:

- Arwain prosiectau a neilltuwyd gan gynnwys dylunio, negodi a chynllunio o fewn y rhaglen Tir ac Eiddo.
- Rheoli a chyflawni prosiectau a neilltuwyd o fewn y rhaglen.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio ar y cyd â phartneriaid i gyflawni amcanion y rhaglen.
- Datblygu achosion busnes gan ddefnyddio'r fethodoleg Achos Busnes Gwell
- Cyflawni amcanion prosiectau unigol a chyfrannu at ganlyniadau a thargedau cronus y rhaglen ar amser ac o fewn y gyllideb.
- Cydlynu prosiectau a'u rhyng-ddibyniaethau ar draws y rhaglen ac o fewn portffolio ehangach y Cynllun Twf.
- Cefnogi prosiectau i gyflawni ein targedau newid hinsawdd a bioamrywiaeth

## Cyfrifoldeb am Swyddogaeth:

- Rheoli cyllidebau'r prosiect, monitro gwariant a chostau yn erbyn allbynnau'r prosiect a gyflawnwyd ac a wireddwyd a buddion ehangach y rhaglen.
- Rheoli staff ac adnoddau ar draws timau prosiectau gan gynnwys neilltuo, rheoli, cofnodi a dadansoddi deilliannau'r gwaith.
- Bod yn gyfrifol am offer perthnasol yn cynnwys gliniaduron a ffonau symudol.

## Prif Ddyletswyddau:

### Rhaglen Tir ac Eiddo:

- Defnyddio dulliau rheoli prosiect i ddatblygu a chyflwyno'r prosiectau Tir ac Eiddo a adnabwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.
- Prosesu ceisiadau'r prosiect ar gyfer cyfleoedd ariannu prosiect cyfreithlon a phriodol fel sydd angen.
- Cadw trosolwg, ac arwain ar ddatblygu Achos Busnes Lawn ar gyfer prosiectau Tir ac Eiddo.
- Rheoli a darparu mewnbwn i fyrddau prosiect / rhaglen perthnasol yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid rhanbarthol, partneriaid a llywodraethau allweddol i sicrhau bod prosiectau a rhaglenni yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.
- Sefydlu perthnasau gydag Asiantaethau Menter yng Nghymru ac ar draws y ffin i gefnogi nodau strategol y Cynllun Twf a chael enghreifftiau o arfer gorau a chydlynu cyfleoedd buddsoddi ar y cyd ac yn gyflenwol.

### Rheoli Prosiect:

- Cwblhau dyluniad ac achos busnes y prosiect yn cynnwys negodi gyda phartion mewnol ac allanol i gyrraedd cytundeb o fewn y rhaglen.
- Rheoli prosiectau cymhleth a niferus o'r gymeradwyaeth amlinellol i weithredu a chwblhau.
- Sicrwydd ansawdd a chydymffurfiaeth ar gyfer yr holl waith prosiect.
- Darparu cefnogaeth broffesiynol, gan gynnwys sicrhau ansawdd, i brosiectau eraill o fewn portffolio ehangach y Cynllun Twf.

# Swydd Ddisgrifiad (parhad)

## Rheoli Rhaglenni:

- Cefnogi a chydlynu systemau a disgyblaethau rheoli rhaglenni i'r arfer gorau sydd wedi'i mabwysiadu.
- Cydlynu a rheoli'r rhyng-ddibyniaethau ar draws rhaglenni a phrosiectau.

## Llywodraethu Rhaglenni a Chontractau:

- Negodi, rheoli ac adolygu'r contractau.

## Rheoli Adnoddau:

- Rheoli cyllidebau a grantiau prosiectau refeniw a chyfalaf.
- Gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o adnoddau wrth gyflawni prosiectau.
- Cyflawni targedau masnachol y cytunir arnynt.

## Rheoli Perfformiad:

- Rheoli perfformiad ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau prosiectau.
- Rheoli risg ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau prosiectau.

## Adrodd ac Atebolrwydd:

- Adrodd ar gynllunio prosiectau ac adnoddau yn ôl yr angen.
- Sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau data a pherfformiad.
- Gweithredu fel ymgynghorydd arbenigol sy'n ennyn ymddiriedaeth o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio.

## Llysgenhadol:

- Gweithredu fel lladmerydd dros y Weledigaeth Twf a'r rhanbarth.
- Datblygu a rheoli perthnasau allanol effeithiol ar bob lefel.
- Rheoli cyfathrebu allanol a chysylltiadau cyhoeddus y prosiectau.

## Cydymffurfiaeth ac Ymddygiad:

- Cydymffurfio â'r holl bolisiau, gweithdrefnau, arfer gorau a statud sydd wedi'u mabwysiadu.
- Arddangos y safonau uchaf o ymddygiadau a gwerthoedd proffesiynol.



# Manylion Person

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau Addysgol / Proffesiynol</b>		
Gradd/ôl-radd mewn maes perthnasol (neu gyfatebol)	✓	
Cymhwyster Rheoli Prosiect / Rhaglen (e.e. PRINCE 2 Practitioner neu gyfatebol)		✓
Aelodaeth o Sefydliad Proffesiynol fel yr RICS, RTPI, RIBA, IED neu debyg.		✓
Isafswm o bum mlynedd o brofiad ers y cymhwyster proffesiynol.		✓
<b>Gwybodaeth a Sgiliau</b>		
Gwybodaeth neu ymwybyddiaeth o Gynllunio Gwlad a Thref, dylunio ac adeiladwaith, datblygu tir ac eiddo, adfywio trefol, caffael sector cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o faterion cyfreithiol a chytundebol.		✓
Sgiliau rhyngpersonol a sgiliau cyfathrebu da.	✓	
Gwybodaeth weithiol dda am ddulliau rheoli prosiectau.	✓	
Gwybodaeth dda am dechnegau cynllunio, monitro a rheoli prosiectau	✓	
Dealltwriaeth o arferion rheolaeth ariannol	✓	
Llythrennog mewn TGCh, yn gyfforddus gyda Word, PowerPoint, Excel, cronfeydd data perthnasol a chyfryngau cymdeithasol	✓	
Gwybodaeth neu ymwybyddiaeth o'r fethodoleg Model Achos Busnes Pum Achos.		✓
Dealltwriaeth o'r broses ysgrifennu bidiau / datblygu achosion busnes		✓
<b>Profiad</b>		
Profiad blaenorol naill ai mewn datblygu eiddo, cynllunio, dylunio ac adeiladwaith neu gyflawni prosiectau.		✓
Tystiolaeth a cofnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus	✓	
Profiad o gyflawni rhaglenni a/neu prosiectau'n llwyddiannus ar amser ac o fewn y gyllideb	✓	
Profiad o ymgysylltu gyda'r cyhoedd/rhanddeiliaid yn effeithiol	✓	
Profiad blaenorol o reoli contractau	✓	
Profiad o weithio gydag Aelodau Etholedig ac ymdrin â materion sy'n wleidyddol sensitif		✓
Profiad o wneud ceisiadau am gyllid allanol a / neu ddatblygu achosion busnes		✓
<b>Nodweddion Personol</b>		
Dibynadwy	✓	
Cyfathrebwr hyderus gyda deallusrwydd emosiynol cryf	✓	
Person sy'n meddwl yn arloesol ac yn datrys problemau	✓	
Meddwl yn hyblyg ac yn fodlon derbyn gyda chyfrifoldeb, blaenoriaethau gwahanol a chydabod ac ymateb i newid.	✓	
Sgiliau trefnu ardderchog	✓	
Yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm	✓	
Yn gallu gweithio dan bwysau	✓	
Gallu wedi'i brofi i gwrdd â therfynau amser a thargedau	✓	
Y gallu i adeiladu perthnasau ac ysbrydoli eraill i weithredu	✓	
<b>Gofynion Ieithyddol</b>		
Gwrando a Siarad—Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.		✓
Darllen a Deall—Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.		✓
Ysgrifennu—Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio'r ieithwedd a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darlennydd.		✓

## Y Broses Benodi

- Dilynwch [y linc yma](#) i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.
- Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.
- Y dyddiad cau yw 10yb ar 17 Fehefin 2022.
- Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol.
- Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, bydd manylion y cyfweiliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.
- Efallai y byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg naill ai yn ystod neu cyn y cyfweiliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweiliad).
- Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.
- **[Am fanylion llawn edrychwch ar yr hysbyseb swydd a'r swydd ddisgrifiad.](#)**

## Amserlen Recriwtio

Amserlen	Dyddiad
<b>Dyddiad Cau</b> Bydd angen derbyn ceisiadau erbyn y dyddiad yma	17/06/22
<b>Rhestr Fer</b> Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweiliad.	Erbyn 22/06/22
<b>Asesiadau</b> Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweiliad. Byddwn yn derbyn y manylion os byddwch ar y rhestr fer.	Erbyn 29/06/22
<b>Cyfweiliadau</b> Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer.	04/07/22

### Gweithio i Uchelgais Gogledd Cymru:

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei letya gan Gyngor Gwynedd fel ein corff cyflogi. Felly, tra bydd y swydd gyda Uchelgais Gogledd Cymru bydd y cytundeb gwaith gyda Chyngor Gwynedd.

I ddarganfod mwy, cliciwch [yma](#).

# Am y Cynllun Twf



## Nod:

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Amcanion:



### Creu Swyddi

Creu hyd at 4,200 o swyddi newydd



### GVA

Creu hyd at £2.4bn o GVA ychwanegol net

## Buddsoddiad:

Buddsoddiad sector Breifat:	Buddsoddiad Cynllun Twf:	Buddsoddiad sector Cyhoeddus:	Cyfanswm Buddsoddiad
£722.1m	£240m	£184.3m	£1.1bn

## Ein Rhaglenni:

### Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Bydd y rhaglen yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

### Cysylltedd Digidol

Bydd y rhaglen hon yn gwella ein gallu i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn gallu cwrdd a'r galw cynyddol am wasanaethau digidol a manteisio ar gysylltedd cyflym, ansawdd uchel.

### Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch

Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacheiddio technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector yn ein rhanbarth.

### Tir ac Eiddo

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, yn gwireddu cyfleoedd ac yn adeiladu ar ein cryfderau.

### Ynni Carbon Isel

Bydd y rhaglen yma'n sicrhau y budd o ddatblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan gryfhau safle Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar ar gyfer y sector ynni carbon isel.